Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS): Sut i ddefnyddio Map y SFS



# Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS): Sut i ddefnyddio Map y SFS

Pwrpas y ddogfen hon yw rhoi cyfarwyddiadau cam wrth gam i chi ar sut i ddefnyddio map ar-lein y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Gan fod y ddogfen hon mor fanwl, cafodd ei llunio i'w defnyddio ar-lein yn bennaf.

Os ydych chi'n cael trafferth neu os nad ydych yn cael mynd i'r wefan, cysylltwch â Desg Gymorth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004.

## Cynnwys Tudalen


Map y Cynllun Ffermio Cynaliadwy – Trosolwg.........................4

Gweld Eich Map…………………………………………………11

Tab Crynodeb…………………………………………………...15

Tab Cynefin……………………………………………………...16

Tab Canopi coed………………………………………………..20

Tab Nodweddion Parhaol………………………………………23

Tabl Allwedd…………………………………………………… 27

Eiconau Rhyngweithiol………………………………………...30

Yn ôl i'r Daliad…………………………………………………..31

Offeryn Mesur…………………………………………………...32

Clystyru………………………………………………………… 34

Chwyddo I mewn………………………………………………38

Chwyddo allan.......................................................................42

Tremio (Panio).......................................................................45

Dewis Haenau........................................................................47

Graddfa arddangos haenau....................................................47

Haen Lluniau o’r awyr...........................................................48

Haen y map..........................................................................49
Haen Nodweddion Parhaol.....................................................51
Labeli Caeau.......................................................................52
Haen Cynefin.......................................................................53
Haen Canopi Coed................................................................ 54
Haen Gwrthodwyd Sgrinio AEA.............................................55
Haen Opsiynau Rheoli Glastir................................................56
Haen Safleoedd Dynodedig...................................................57
Haen Amgylchedd Hanesyddol...............................................58
Haen Llethr 12 gradd neu fwy................................................59
Haen Hawliau Tramwy Cyhoeddus.........................................60
Haen Mynediad Agored…………………………………………..61
Haen Coetir Hynafol……………………………………………62
Haen Peatland…………………………………………………63
Haen Perygl Llifogydd…………………………………………….64
Haen AGA ar gyfer Brain Coesgoch…………………………….65
Haen Safleoedd sy'n Ddibynnol ar Ddŵr………………………66
Haen Rhidyddion Magu…………………………………………..67
Manylebau Technegol…………………………………………….67
Atodiad A 69

**Ymwadiad**

Pwrpas y canllaw hwn yw eich helpu i ddefnyddio gwasanaeth Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein. Mae'r Canllaw hwn wedi'i rannu'n adrannau sy'n cynnwys cyfarwyddiadau cam wrth gam manwl. Gan fod cyfleusterau Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein yn cael eu datblygu, bydd y Canllaw hwn yn newid o bryd i'w gilydd.

Cynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru

©Hawlfraint y Goron 2025.

# Map y Cynllun Ffermio Cynaliadwy – Trosolwg

Mae map yr SFS wedi'i gynllunio i'ch helpu i ddeall y mathau o dir, nodweddion y tirlun a gwybodaeth bwysig arall allai fod yn berthnasol i dir eich fferm ac i sut y byddwch yn cymryd rhan yn Haen Gyffredinol yr SFS o 1 Ionawr 2026.

Mae'r map yn un rhyngweithiol ac yn seiliedig ar y data mapio diweddaraf a'r wybodaeth sydd gennym am eich daliad.

**Pwysig:** Gall y manylion newid wrth i ni ddiweddaru'n system fapio ar sail diweddariadau i fapiau'r Arolwg Ordnans a newidiadau i'ch tir y byddwch chi'n eu cyflwyno trwy Rheoli fy Nhir neu'r Ffurflen Cais Sengl. Mae'n fwriad gennym ychwanegu haen perthi/gwrychoedd at fersiynau map yr SFS yn y dyfodol.

## Adolygiad Sylfaenol o Gynefinoedd

Ar SAF 2026, bydd yn rhaid i chi gynnal Adolygiad Sylfaenol o Gynefinoedd. Hwn fydd eich cyfle olaf i gadarnhau, ychwanegu, dileu neu newid y darnau canlynol o dir sydd wedi'u mapio ar gyfer Haen Gyffredinol yr SFS:

- Pob cynefin sy'n bod eisoes, fel y'i diffinnir yn UA5 - Cynnal Cynefinoedd: Rhaid cadarnhau pob cynefin lled-naturiol fel un o'r 12 categori cynefin bras.
- Darnau o dir sy'n cael eu defnyddio i greu Cynefinoedd Dros Dro yn unol ag UA6 - Cynefin Dros Dro, os oes angen.
- Canopi Coed: Bydd angen i chi gadarnhau faint o dir ar eich daliad sydd o dan ganopi coed a/neu goetir, gan gynnwys coetir llydanddail sefydledig 0.1ha neu fwy, a fydd yn cyfrif tuag at UA9: Cynnal coetir.

**Pwysig:** Os yw'r cynefin ar haen gyfyngiadau, rhaid ichi ddarparu dogfennau ategol os hoffech ei newid neu ei ddileu.

**Disgrifir isod yr haenau sydd wedi'u cynnwys yn y map a'u perthynas â gofynion yr SFS:**

1. **Mae manylion Sylfaen Reoleiddio'r SFS: y Gofynion Rheoli Statudol (SMR) a safonau Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da i'w gweld yma Cynllun Ffermio Cynaliadwy.**

Llethr o 12 gradd neu fwy

- Gallwch ddefnyddio'r haen hon i'ch helpu i gydymffurfio â gofynion Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 sy'n cael eu disgrifio yn SMR 1.

Hawliau Tramwy Cyhoeddus

- Mae'r haen hon yn dangos yr Hawliau Tramwy Cyhoeddus ar eich daliad y dylech eu rheoli yn unol â'r gofynion a ddisgrifir yn SMR 14.

Mynediad agored

- Mae'r haen hon yn dangos yr ardaloedd Mynediad Agored ar eich daliad y dylech eu rheoli yn unol â'r gofynion a ddisgrifir yn SMR 14.

2. **Cod i Bawb yr SFS: Mae'r manylion llawn i'w gweld yn Adran H Canllaw Haen Gyffredinol yr SFS.**

Mae'r Cod i Bawb wedi'i rannu'n 4 rhan:

Rhan 1 – Diogelu pridd
Rhan 2 – Bioamrywiaeth a chynefinoedd, gan gynnwys 10% o gynefin ar eich fferm
Rhan 3 – Coed
Rhan 4 – Nodweddion y Tirlun

Lluniau o'r awyr

- Bydd yr haen hon yn dangos y lluniau diweddaraf o'r awyr sydd gennym o Gymru. Gallwch eu defnyddio i gadarnhau newidiadau i ffiniau'ch caeau a nodweddion y tir a nodweddion a wnaed gan ddyn. Mae lluniau'n cael eu defnyddio i gadarnhau llawer o agweddau y Cod i Bawb.

Safleoedd sy'n Dibynnu ar Ddŵr

- Mae'r haen hon yn dangos y caeau sydd wedi'u dynodi'n Safleoedd sy'n Dibynnu ar Ddŵr. Bydd cyfyngiadau ychwanegol at Ran 1: Diogelu Pridd, os oes gennych dir o dan haen Safleoedd sy'n Dibynnu ar Ddŵr.

Perygl Llifogydd

- Mae'r haen hon yn dangos y tir lle ceir perygl llifogydd. Dylech ddefnyddio'r haen hon pan fyddwch yn ystyried plannu indrawn ar y tir, gan y bydd angen hau cnwd ychwanegol oddi tano, yn unol â'r gofynion penodol o dan Ran 1: Diogelu Pridd.

Llethr o 12 gradd neu fwy

- Mae'r haen hon yn dangos tir ar lethr 12 gradd neu fwy. Dylech osgoi plannu indrawn arno oherwydd y cyfyngiadau plannu o dan Ran 1: Diogelu Pridd.
- Gallwch ddefnyddio'r haen hon i'ch helpu i gydymffurfio â Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021.

Mawnogydd

- Mae'r haen hon yn dangos y mawnogydd. Dylech ei defnyddio i sicrhau'ch bod yn bodloni gofynion Rhan 2: Bioamrywiaeth a chynefinoedd.
- Efallai y bydd ystyriaethau eraill yn berthnasol o dan UA5: Cynnal Cynefin.

Canopi Coed

- Mae'r haen hon yn dangos canopïau coed (unigol a grwpiau) hyd at 0.1ha o faint. Bydd gofyn ichi fodloni gofynion Rhan 3: Coed arnyn nhw.
- Os yw'r canopi coed neu'r coetir o 0.1ha neu fwy, gweler UA9: Cynnal Coetir.

Coetir Hynafol

- Mae'r haen hon yn dangos Coetiroedd Hynafol a gellir ei defnyddio i weld ble mae'r coed hynafol sydd angen amddiffyniad neu reolaeth gryfach na'r hyn a ddisgrifir yng ngofynion Rhan 3: Coed.

## 3. Cod i Bawb yr SFS – Tir Cymwys. Mae'r manylion llawn i'w gweld yn Adran D Canllaw Haen Gyffredinol yr SFS.

Nodweddion Parhaol

- Mae'r haen hon yn dangos y nodweddion parhaol sydd ymhob cae.
- Mae rhestr o nodweddion parhaol cymwys ar gyfer SFS wedi'u manylu yn Atodiad 4 Canllaw Haen Gyffredinol yr SFS
- Rhaid mapio nodweddion parhaol newydd neu newidiadau gan ddefnyddio ffurflen Rheoli fy Nhir ar RPW Ar-lein.

**4. SFS – UA1: Iechyd Pridd. Mae'r manylion llawn i'w gweld yn Adran J1 Canllaw Haen Gyffredinol yr SFS.**

Cynefin

- Ni fydd angen cynnal profion pridd ar dir neu mewn caeau sydd wedi'u categoreiddio'n gynefin parhaol.
- Bydd pob cae neu dir arall yn cael ei ystyried yn dir sydd wedi cael ei reoli i wella cynhyrchiant amaethyddol er enghraifft, trwy ei ailhau, neu'n dir sydd wedi neu a allai dderbyn calch a/neu fewnbynnau.
- Mae'n bosibl y bydd angen bodloni gofynion iechyd pridd ar gaeau sydd â thir wedi'i wella at ddibenion amaethyddol.

**5. SFS – UA5: Cynnal Cynefin. Mae'r manylion llawn i'w gweld yn Adran J5 Canllaw Haen Gyffredinol yr SFS.**

Cynefin

- Mae'r haen hon yn dangos y cynefinoedd parhaol sydd ymhob cae.
- Mae 12 dosbarth bras o gynefin parhaol. Disgrifir gofynion pob math o gynefin, ar ben yr hyn sy'n ofynnol o dan y Cod i Bawb, yn Atodiad 2 Canllaw Haen Gyffredinol yr SFS.
- **Pwysig:** Ar ôl ichi gyflwyno'ch SAF, bydd unrhyw gynefinoedd dros dro sydd wedi'u mapio ar dir wedi'i wella yn cael eu dangos hefyd ar yr haen hon.

Gwrthod Sgrinio EIA

- Bydd yr haen hon yn dangos ar y map lle mae cam Sgrinio'r EIA wedi'i wrthod. Dyma dir y mae cam Sgrinio Asesu'r Effaith Amgylcheddol wedi cael ei wrthod arno yn y gorffennol.
- Bydd y safleoedd hyn yn gweithredu fel haen gyfyngiadau o safbwynt cynefinoedd a bydd angen ichi roi rhagor o wybodaeth os gofynnir ichi ddileu cynefin fel rhan o'r Arolwg Gyffredinol o Gynefinoedd.

Opsiynau Rheoli Glastir

- Mae'r haen hon yn dangos y tir a oedd gynt o dan opsiwn Rheoli Glastir. Bydd yn gweithredu fel haen gyfyngiadau o safbwynt cynefinoedd a bydd angen ichi roi rhagor o wybodaeth os gofynnir ichi ddileu cynefin fel rhan o'r Arolwg Gyffredinol o Gynefinoedd.

Mawnogydd

- Mae'r haen hon yn dangos y mawnogydd. Dylech ddefnyddio'r haen hon ar y cyd â'r gofynion Cynnal Cynefin i ddeall pryd bydd angen ichi ystyried ffactorau rheoli ychwanegol ar y tir hwn.
- Gallwch ddefnyddio'r haen hefyd i'ch helpu i gydymffurfio â gofynion Rhan 2 y Cod i Bawb: Bioamrywiaeth a chynefinoedd.

AGA Brain Coesgoch (Ardal Gwarchodaeth Arbennig)

- Mae'r haen hon yn dangos yr AGAau sydd wedi'u dynodi'n benodol ar gyfer Brain Coesgoch a dylech ei defnyddio ar y cyd â gofynion Cynnal Cynefin Glaswelltir sych lled-naturiol wedi'i amgáu (glaswelltir sur, niwtral, calchaidd, metelaidd) i ddeall pryd bydd angen ichi ystyried ffactorau rheoli ychwanegol ar y tir hwn.

Rhydyddion Bridio

- Mae'r haen hon yn dangos ardaloedd sydd wedi'u dynodi'n benodol ar gyfer Rhydyddion Bridio a dylech eu defnyddio ar y cyd â gofynion Cynnal Cynefin Glaswelltir sych lled-naturiol wedi'i amgáu (glaswelltir sur, niwtral, calchaidd, metelaidd) i ddeall pryd bydd angen ichi ystyried ffactorau rheoli ychwanegol ar y tir hwn.

- **Pwysig:** Efallai na fydd yn briodol plannu coed perthi/gwrychoedd newydd yn yr ardaloedd dynodedig hyn am fod adar yn nythu ar y ddaear ynddynt.

**6. SFS – UA6: Creu cynefin dros dro ar dir wedi'i wella. Mae'r manylion llawn i'w gweld yn Adran J6 Canllaw Haen Gyffredinol yr SFS.**

Cynefin

- Ceir 11 o fathau o gynefin dros dro yn Atodiad 3 Canllaw Haen Gyffredinol yr SFS
- Ar ôl ichi gyflwyno'ch SAF, bydd unrhyw gynefinoedd dros dro sydd wedi'u mapio ar dir wedi'i wella yn cael eu dangos hefyd ar yr haen hon.

7. **SFS – UA7: Cynllun Rheoli Safleoedd Dynodedig. Mae’r manylion llawn i’w gweld yn Adran J7 Canllaw Haen Gyffredinol yr SFS.**

Safleoedd Dynodedig

- Mae'r haen hon yn dangos y Safleoedd Dynodedig. Cliciwch arni ar y tab crynodeb i weld cyfeiriadau at safleoedd.
- Bydd y safleoedd dynodedig hyn yn gweithredu fel haen gyfyngiadau o safbwynt cynefinoedd a bydd angen ichi roi rhagor o wybodaeth os gofynnir ichi ddileu cynefin fel rhan o'r Arolwg Cyffredinol o Gynefinoedd.
- Os oes safle dynodedig, bydd angen bodloni gofynion rheoli ychwanegol, gan gynnwys efallai cael caniatâd i gynnal rhai o'r gweithgareddau fydd wedi'u rhestru yn y dynodiad gwreiddiol.
- Os oes safle dynodedig ar eich daliad, bydd UA7: Cynllun Rheoli Safleoedd Dynodedig yn berthnasol i chi.

8. **SFS – UA8: Rheoli Perthi/Gwrychoedd. Mae’r manylion llawn i’w gweld yn Adran J8 Canllaw Haen Gyffredinol yr SFS.**

Rhydyddion Bridio

- Mae’r haen hon yn dangos ardaloedd sydd wedi’u dynodi’n benodol ar gyfer Rhydyddion Bridio lle na fyddai'n addas efallai sefydlu coed perthi/gwrychoedd newydd am fod adar yn nythu ar y ddaear.

9. **SFS – UA9: Cynnal Coetir. Mae’r manylion llawn i’w gweld yn Adran J9 Canllaw Haen Gyffredinol yr SFS.**

Canopi Coed

- Mae’r haen hon yn dangos canopïau coed (unigol a grwpiau) hyd at 0.1ha o faint a mwy.
- Bydd unrhyw ganopi coed 0.10ha neu fwy yn gorfod cael ei reoli’n unol â gofynion Cynnal Coetir.
- **Pwysig:** Gall unrhyw goetir Llydanddail (canopi coed 0.10ha neu fwy) gyfrif at ofyn Haen Gyffredinol yr SFS bod ffermwyr yn cadw 10% o'u tir yn Gynefin. Gweler y manylion yn Adran I Canllaw Haen Gyffredinol yr SFS.

10. **SFS – UA9: Cynllun Cyfle Plannu Coed a Pherthi/Gwrychoedd. Mae'r manylion llawn i'w gweld yn Adran J10 Canllaw Haen Gyffredinol yr SFS.**

**Pwysig:** Bydd y Cynllun Cyfle Plannu Coed a Pherthi/Gwrychoedd ar gael i chi ei gwblhau trwy eich cyfrif RPW Ar-lein o Haf 2026. Yn y cyfamser, defnyddiwch fap yr SFS i ystyried ble y gallech integreiddio coed a pherthi ychwanegol ar eich daliad i greu ffiniau bioddiogel, os ydych yn eu plannu ar ffiniau'ch fferm, a chysgod a lloches i'ch anifeiliaid a'ch cnydau os ydych yn eu plannu fel lleiniau cysgodi neu ar wasgar ar eich tir.


11. **SFS – UA9: Amgylchedd Hanesyddol. Mae'r manylion llawn i'w gweld yn Adran J11 Canllaw Haen Gyffredinol yr SFS.**

Yr Amgylchedd Hanesyddol

- Mae'r haen hon yn dangos nodweddion yr Amgylchedd Hanesyddol ar y map. Cliciwch ar y nodwedd yn y tab crynodeb i weld manylion y safle.
- Os oes gennych nodweddion Yr Amgylcheddol Hanesyddol ar eich daliad, bydd UA11 yr Amgylchedd Hanesyddol yn berthnasol i chi a bydd yn rhaid ichi reoli'r holl nodweddion yn unol â'r gofynion.


# RPW Ar-Lein

## Tir.




- Map y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.
- Map Rhyngweithiol
- Map y SAF
- Map Grant ar gyfer HWS
- Rheoli fy Nhir
- Rheoli fy CPH
- Ychwanegu CPH Newydd
- Mapiau

Pan fyddwch chi'n clicio ar 'Fap y Cynllun Ffermio Cynaliadwy' o dan y tab Tir, fe welwch y dudalen ganlynol:




Dangosir dau ymwadiad ar gyfer Hawliau Tramwy Cyhoeddus:

- Mae'r 'ymwadiad ar gyfer Hawliau Tramwy Cyhoeddus' yn ymwneud â gwybodaeth a gafwyd gan Awdurdodau Lleol ac a ddangosir yn yr haen 'Hawliau Tramwy Cyhoeddus'.
- Mae'r 'ymwadiad ar gyfer Hawliau Tramwy Cyhoeddus' yn ymwneud â gwybodaeth a gafwyd gan yr Arolwg Ordnans ac sydd wedi'i hymgorffori yn 'Haen y Map'.

**Pwysig:** Gellir dod o hyd i ddatganiad diystyru llawn Hawliau Cyhoeddus ar Draed yn Atodiad A


Fe welwch ddolen i'r canllaw hwn ar ochr chwith pop-yp y map.


Ar ôl clicio Parhau, fe welwch y dudalen ganlynol:




Unwaith y bydd wedi'i llwytho, bydd eich tudalen Map Rhyngweithiol yn edrych yn debyg i hyn.

Bydd eich daliad cyfan i'w weld yn ddiofyn.





Darllenwch y canllaw am glystyrau.




Ar ochr chwith y dudalen, bydd yna flwch Chwilio.





Gallwch ddefnyddio'r cyfleuster Chwilio i hidlo'ch caeau. Cofnodwch Gyfeirnod y Ddalen, Rhif y Cae neu Enw'r Cae ac wrth i chi deipio, bydd y system yn dechrau dod o hyd i'r cae rydych chi'n chwilio amdano. Er mwyn clirio'r chwiliad, rhaid i chi ddileu'r data a gofnodwyd yn y bar Chwilio.

Bydd rhestr o'r pum parsel tir cyntaf sy'n cyfateb yn cael ei dangos. Bydd y canlyniadau yn cael eu dangos mewn trefn esgynnol.

Os yw nifer y parseli tir yn y rhestr yn cynnwys mwy na phum sy'n cyfateb, bydd y neges hon yn dangos faint yn rhagor sydd wedi cyfateb i'r chwiliad.

# Tab Crynodeb

Bydd crynodeb o'r cae yn cael ei arddangos ar gyfer y parsel tir a ddewiswyd. Bydd manylion y parsel tir yn cael eu harddangos mewn dau flwch ar yr ochr chwith.



# Tab Cynefin

Bydd crynodeb yn cael ei ddangos o gynefinoedd y cae rydych wedi'i ddewis. Bydd manylion, dosbarth a maint y cynefin yn cael eu dangos yn y blwch ar yr ochr chwith.


Mae dosbarthiadau'r cynefinoedd yn cael eu disgrifio yng nghanllaw Canllaw Haen Gyffredinol yr SFS.

Bydd modd gweld ardal a dosbarthiad pob math o gynefin o fewn y parcel.

Pan fydddwch yn clicio ar y tab Cynefin ar dop eich map, bydd y Cynefin yn troi ymlaen a byddwch yn gallu gweld nodweddion y Cynefin ar ochr chwith eich map.




Cliciwch ar saeth y gwymplen ac fe welwch restr o'r Cynefinoedd.





Os ydych am weld y cynefin, cliciwch ar yr icon 'gwybodaeth' a bydd yn dangos nodweddion y cynefin ar y cae.






Fel arall, gallwch glicio ar y map i zwmio i mewn. Bydd dosbarth y cynefin, a'i arwynebedd, yn cael eu dangos mewn glas yn y tab Cynefin.



Mae dosbarthiadau cynefin yn unol â'r Canllaw Haen Gyffredinol yr SFS.

1. Morfa heli
2. Twyni tywod arfordirol a thraethau graean
3. Rhos llawr gwlad a rhos yr arfordir
4. Gwlypdir wedi’i amgáu neu laswelltir corsiog
5. Glaswelltir sych lled-naturiol wedi’i amgáu
6. Cynefinoedd agored yr ucheldir
7. Perllannau traddodiadol
8. Rhedyn Trwchus
9. Prysgwydd
10. Coed pori
11. Pyllau bywyd gwyllt parhaol

# Tab Canopi Coed


Bydd crynodeb yn cael ei ddangos o'r canopi coed y byddwch wedi'i ddewis. Bydd manylion y canopi coed a'i faint yn cael eu dangos yn y blwch ar yr ochr chwith.


Pan fydddwch yn clicio ar y tab Canopi Coed ar dop eich map, bydd y Canopi Coed yn troi YMLAEN a byddwch yn gallu gweld nodweddion y Canopi Coed ar ochr chwith eich map.




Cliciwch ar saeth y gwymplen ac fe welwch restr o'r Canopïau Coed:




SH
cyfan +
cyfan -
Crynodeb
Cynefin
Canopi coed
Nodweddion parhaol
Yn ôl i'r daliad
Gweld Opsiynau
Coed unigol Broadleaf (6)
T00006 - Llydanddail
Maint: Canolig
T00005 - Llydanddail
Maint: Mawr
T00004 - Llydanddail
Maint: Bach Iawn
T00003 - Llydanddail
Maint: Canolig
T00002 - Llydanddail
Maint: Canolig
T00001 - Llydanddail
Maint: Bach
Grwp Broadleaf (2)
T00007 - Llydanddail
Maint: 0.01 ha
T00008 - Llydanddail
Maint: 0.05 ha
T00008
50 m
100 ft
E: 252484 - N: 365153
Os oes gennych gae â mwy nag un math o ganopi coed ynddo, gallwch chwyddo (zwmio)'r caponi coed trwy glicio ar yr icon 'gwybodaeth'. Bydd amlinell las i'w gweld o gwmpas y canopi coed.


SH
cyfan +
cyfan -
Crynodeb
Cynefin
Canopi coed
Nodweddion parhaol
Yn ôl i'r daliad
Gweld Opsiynau
Coed unigol Broadleaf (6)
T00006 - Llydanddail
Maint: Canolig
T00005 - Llydanddail
Maint: Mawr
T00004 - Llydanddail
Maint: Bach Iawn
T00003 - Llydanddail
Maint: Canolig
T00002 - Llydanddail
Maint: Canolig
T00001 - Llydanddail
Maint: Bach
Grwp Broadleaf (2)
T00007 - Llydanddail
Maint: 0.01 ha
T00008 - Llydanddail
Maint: 0.05 ha
Bydd y canopi coed ar y tab Canopi Coed yn troi'n las pan fyddwch yn clicio arno ar y map.
T00005
50 m
100 ft
E: 252484 - N: 365146
Allwedd
Parsel actif
Ffiniau parseli eraill
Canopi coed

Bydd modd gweld awynebedd a dosbarth pob canopi coed yn y cae. Mae dosbarthiadau'r canopïau coed yn:

**Coed Unigol:**

- Llydanddail
- Conwydd

**Byddan nhw wedi cael eu mesur fel a ganlyn:**

- Bach iawn
- Bach
- Canolig
- Mawr
- Mawr Iawn

**Grwpiau Canopi Coed:**

- Llydanddail
- Conwydd
- Cymysg, Llydanddail (rhwng 50% ac 80% o'r arwynebedd yn goed Llydanddail)
- Cymysg, conwydd yn bennaf (rhwng 50% ac 80% o'r arwynebedd yn goed conwydd)


# Tab Nodweddion Parhaol

Mae nodweddion parhaol yn ardaloedd o fewn parsel cae sydd fel arfer ddim yn newid bob blwyddyn. Mae nodweddion parhaol yn cael eu mapio o fewn parsel cae gan ddefnyddio Ffurflen Rheoli Fy Nghyngor Tiriwg (MML).

Mae Nodweddion Parhaol yn cael eu dangos fel grid sgwâr coch gyda ffin borffor drwchus ar gyfer Nodweddion Parhaol Gofodol.

Pan fydddwch yn clicio ar y tab Nodweddion Parhaol ar dop eich map, bydd y Nodweddion Parhaol yn troi YMLAEN a byddwch yn gallu gweld y nodweddion parhaol ar ochr chwith eich map.





Cliciwch ar saeth y gwymplen ac fe welwch restr o'r Nodweddion Parhaol yn y cae.



Os ydych am weld y nodwedd barhaol, cliciwch ar yr icon 'gwybodaeth' a bydd yn dangos y nodweddion parhaol sydd yn y cae:


Byddwch yn gweld Llun A pan fyddwch yn clicio am wybodaeth YY23:

**Llun A:**




Byddwch yn gweld Llun B pan fyddwch yn clicio ar nodwedd barhaol ZZ11:

**Llun B:**



Ar hyn o bryd, mae dangosyddion 5 nodwedd barhaol wahanol ym Map yr SFS.

ZZ98 – Coed – coed unigol, boncyffion/bonion yn cael eu dangos gan ddelwedd fach o goeden.



ZZ40 ac YY41 – Sgri/brigiadau craig/clogfeini/tywod – mewn grwpiau ac wedi'u gwasgaru, yn cael eu dangos gan ddotiau coch.



Bydd y rhan fwyaf o Nodweddion Parhaol* yn cael eu dangos mewn llwyd gyda chroeslinellu coch.



ZZ22 ac YY41 – Prysg/eithin/mieri – mewn grwpiau ac wedi'u gwasgaru, yn cael eu dangos gan y ddelwedd werdd isod



ZZ20 ac YY21 – Rhedyn – mewn grwpiau ac wedi'i wasgaru, yn cael ei ddangos gan y ddelwedd frown isod.





















Dyma’r codau presennol ar gyfer nodweddion parhaol:








| **Cod Cnwd.** | **Disgrifiad o’r Cnwd/Tir.** |
|---|---|
| NO1 | Gweithgareddau anamaethyddol |
| PD1 | Pyllau dŵr sy'n gymwys am y BPS |
| TR2 | Di-stoc – coetir – conwydd (gan gynnwys coed Nadolig) |
| WS1 | Coetir llydanddail di-stoc |
| YY14 | Coetir conwydd gwasgaredig |
| YY15 | Coetir llydanddail gwasgaredig |
| YY16 | Coetir - boncyffion a bonion |
| YY21 | Rhedyn - gwasgaredig |
| YY23 | Prysg/Eithin/Mieir - gwasgaredig |
| YY41 | Sgri/cnycau/meini/tywod - gwasgaredig |
| ZZ10 | Coetir conwydd - grŵp |
| ZZ11 | Coetir llydanddail - grŵp |
| ZZ20 | Rhedyn – grŵp |
| ZZ22 | Prysg/eithin/mieri – grŵp |
| ZZ30 | Pyllau dŵr - - ddim yn gymwys |
| ZZ31 | Afonydd a nentydd |
| ZZ40 | Sgri/brigiadau craig/clogfeini/tywod – grŵp |
| ZZ89 | Adeiladau/buarthau |
| ZZ92 | Arwynebau caled |
| ZZ94 | Ffyrdd |
| ZZ97 | Traciau – heb eu pori |

# Tabl Allwedd

Pwrpas tabl yr allwedd yw esbonio'r delweddau fydd yn cael eu defnyddio i gynrychioli mannau gwahanol ar Fap yr SFS.

| Haen | Lliw Sylfaen | Golwg o'r Awyr (AP) | Golwg MM Enghreif |
|---|---|---|---|
| Haen MasterMap (MM) OS | Nodweddion Dŵr Uchel: Glas<br>Pob nodwedd arall: Llwyd<br>Didreiddedd: 100% | Amherthnsol |   |
| Haen Lluniau o'r Awyr (AP) | Didreiddedd: 100% |  | Amherthnsol |
| Bydd Parseli Tir yn cael eu hamlinellu gan ffiniau coch er mwyn eu hadnabod yn hawdd | Border: Coch<br>Llenwad: Dim (golwg AP) / Melyn (golwg MM)<br>Didreiddedd: 60% |  |  |
| Bydd Parseli Tir sydd wedi'u dewis yn cael eu hamlinellu gan forder glas | Border: Glas<br>Llenwad: Dim<br>Didreiddedd: 100% |  |  |
| Rhifau/Labeli Parseli Tir | Border: Amherthnasol<br>Cefndir: Gwyrdd Golau (golwg AP yn unig)<br>Didreiddedd: 60% |   |   |
| Bydd y rhan fwyaf o Nodweddion Parhaol* yn cael eu dangos gan groeslinellu coch<br><br>*ac eithrio ZZ20, YY21, ZZ40, YY41, ZZ22, YY41 a ZZ98 | Border: Glas<br>Llenwad: Croeslinellu Coch<br>Didreiddedd: 60% |  |  |
| ZZ40 ac YY41 – Sgri/brigiadau craig/clogfeini/tywod – mewn grwpiau ac wedi'u gwasgaru, yn cael eu dangos gan ddotiau coch | Didreiddedd: 60% |  |  |

| | | | |
|---|---|---|---|
| ZZ98 – Coed – unigol, boncyffion/bonion yn cael eu dangos gan ddelwedd o goeden fach | Didreiddedd: 60% |  |  |
| ZZ22 ac YY41 – Prysg/eithin/mieri - mewn grwpiau ac wedi'u gwasgaru, yn cael eu dangos gan y ddelwedd werdd isod | Didreiddedd: 60% |  |  |
| ZZ20 ac YY21 – Rhedyn - mewn grwpiau ac wedi'i wasgaru yn cael ei ddangos gan y ddelwedd frown isod | Didreiddedd: 60% |  |  |
| Haen Cynefin | Border: Glas tywyll<br>Cefndir: Pinc |  |  |
| Haen Cam Sgrinio EIA wedi'i wrthod | Croeslinellau croesgornel oren |  |  |
| Haen Opsiynau rheoli Glastir | Haen oren golau |  |  |
| Haen Safleoedd Dynodedig | Gwyn gydag amlinell wen |  | N/A |
| Haen Amgylchedd Hanesyddol | Llwyd golau ac amlinell lwyd tywyll |  |  |
| Haen Llethr 12 gradd neu fwy | Haen brown tywyll |  |  |
| Haen Hawliau Tramwy Cyhoeddus | Croeslinellau melyn |  |  |
| Haen Mynediad Agored | Haen oren golau ac amlinell oren tywyll |  |  |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Haen Coetir Hynafol | Croeslinellau gwyrdd gyda chefndir gwyrdd golau ac amlinell wyrdd golau |  |  |
| Haen Mawnogydd | Llinellau croesgornel melyn ac amlinell felen |  |  |
| Haen Perygl Llifogydd | Cefndir glas gydag amlinell las tywyll |  |  |
| Haen AGA Brain Coesgoch | Llinellau croesgornel gwyn gyda chefnir llwyd ac amlinell lwyd |  |  |
| Haen Safleoedd sy'n ddibynnol ar ddŵr | Cefndir glas golau ac amlinell las golau |  |  |
| Haen Rhidyddion Bridio | Llinellau croeslinell llwyd tywydd gyda chefndir llwyd ac amlinell lwyd. |  |  |

# Eiconau Rhyngweithiol

Gallwch chi ddewis un o bedwar botwm wrth edrych ar eich map rhyngweithiol. Mae'r botymau ar ffurf eiconau ar frig y map.



Offeryn Mesur – i chi allu mesur hyd ac arwynebedd.




Yn ôl i'r daliad - yn zwmio allan i ddangos eich daliad cyfan.





Ewch i Fullscreen i estyn eich map i lenwi'ch sgrin.





Dim ond wedi ichi glicio ar Fullscreen y bydd modd ichi adael Fullscreen. Bydd hynny'n mynd â chi yn ôl i'ch sgrin arferol.

# Yn ôl i'r daliad

Bydd y botwm hwn yn caniatáu i chi weld eich daliad yn  gyfan.





Os byddwch yn gwasgu'r botwm hwn, bydd y map yn dangos eich daliad cyfan.




# Offeryn Mesur

Bydd y botwm hwn yn caniatáu i chi fesur hyd ac arwynebedd mewn m, km neu ha yn ôl y gofyn. Gallwch ddefnyddio’r offeryn hwn i fesur un hyd, sawl hyd neu hyd ac arwynebedd polygon. Gallwch ei ddefnyddio ar unrhyw raddfa ond byddai’n fwyaf defnyddiol pan fyddwch wedi chwyddo'ch daliad (zwmio i mewn). Dim ond un peth y gallwch chi ei fesur ar y tro, felly os ydych chi am fesur mwy nag un peth ar eich map, bydd rhaid eu mesur ar wahân. Os ydych chi’n cychwyn mesuriad newydd, bydd unrhyw linellau neu bolygonau sydd eisoes wedi’u mesur yn cael eu clirio o’r sgrin.




Bydd neges yn ymddangos ar waelod y sgrin pan fydd yr offeryn mesur yn cael ei ddefnyddio.







Byddwch yn gallu mesur arwynebedd pob rhan o'ch daliad gan ddefnyddio'r offeryn mesur:




# Clystyru

Bydd Map yr SFS yn agor i ddangos eich daliad cyfan. Os yw'r bar graddfa yn dangos 1000m neu fwy, bydd eich caeau yn cael eu grwpio gyda'i gilydd mewn clystyrau ac yn cael eu dangos fel cylch coch.





Dyna fydd yn digwydd hefyd os yw'ch daliad cyfan yn llai na 1000m a'ch bod yn zwmio allan i bwynt ble mae bar y raddfa yn fwy na hyn. Bydd nifer y cylchoedd coch a ddefnyddir i ddangos y clystyrau yn lleihau wrth i chi chwyddo allan. Pella'n y byd y byddwch yn zwmio allan, lleia'n y byd o o glystyrau coch fydd gennych chi.





Wrth i chi zwmio allan, bydd nifer y cylchoedd coch sy'n cael eu defnyddio i ddangos y clystyrau yn lleihau.

Pan fydd clystyrau'n dangos ar y map, bydd yr holl haenau eraill yn cael eu diffodd ac eithrio Llun o'r Awyr neu Haen Map a Nodweddion Parhaol.




Bydd pob haen yn cael ei diffodd pan fydd y lefel zwmio yn 1000m neu'n fwy.

Cliciwch ar un o’r clystyrau a bydd y map yn zwmio i mewn i’r caeau ac yn cynnau unrhyw haenau a oedd ymlaen cyn hynny (cyn belled â bod y raddfa'n briodol i'w dangos. Darllenwch yr adran Dewis Haenau am help).




Bydd unrhyw haenau a oedd ymlaen cyn hynny yn cael eu dangos.

**Pwysig:** Os ydych am symud i gae arall - gallwch wneud hynny yn y Tab Crynodeb.


Gallwch fynd i'r blwch chwilio a theipio manylion unrhyw gae yn eich daliad ac fe aiff y map â chi yno'n syth.



## Chwyddo (Zwmio i mewn)

Mae pedair ffordd o zwmio i mewn i’r Map Rhyngweithiol. Bydd y dull y byddwch chi'n ei ddefnyddio yn dibynnu ar beth rydych chi’n ceisio’i wneud.

1. Mae’n gyflym ac yn hawdd zwmio i mewn ar un cae:




2. Ar fap yr SFS, chwith-gliciwch unwaith ar y cae a bydd y map yn mynd â chi'n syth i'r cae hwnnw. Dwbl-gliciwch y tu allan i'r daliad a byddwch yn zwmio i mewn yn raddol fach. Gweler enghreifftiau isod i ddangos sut mae zwmio i mewn o'r fferm gyfan i un cae.  Mae ei gwneud hi fel hyn yn gadael ichi weld y caeau o gwmpas y cae rydych wedi'i ddewis.


Ar ôl dwbl-glicio unwaith ar fotwm chwith eich llygoden, bydd crynodeb yn ymddangos o'r cae y gwnaethoch chi glicio arno. Bydd y map hwn yn zwmio i mewn ychydig hefyd. Gallwch barhau i ddwbl-glicio a zwmio tan ichi gael y manylder addas.




Os ydych chi am zwmio i mewn ar grŵp o gaeau, mae sawl ffordd o wneud hynny:

3. Os oes gennych lygoden ag olwyn sgrolio, gallwch ddefnyddio'r olwyn sgrolio i zwmio i mewn.






Gallwch barhau i zwmio i mewn fel hyn tan ichi gyrraedd y manylder addas.

4. Ffordd arall o zwmio i mewn yw trwy ddefnyddio’r botwm Plws (+).





Cliciwch y botwm Plws (+) i zwmio i mewn i'ch map.





Bydd gwaelod eich map yn dangos y raddfa rydych chi arni nawr. Wrth i chi zwmio i mewn, bydd y raddfa’n newid.

# Dadchwyddo (Zwmio allan)


Y ffordd gyflymaf a hawsaf o zwmio allan yw defnyddio’r botwm ‘Yn ôl i'r daliad'.





Wrth bwyso'r botwm 'Yn ôl i'r Daliad', bydd y system yn zwmio allan i ddangos y daliad cyfan a bydd eich map yn edrych fel hyn:





1. Os oes gennych lygoden ag olwyn sgrolio, gallwch ddefnyddio'r olwyn sgrolio i zwmio allan.







2. Ffordd arall o zwmio allan yw trwy ddefnyddio’r botwm Minws (-).




Cliciwch y botwm Minws (-) i zwmio allan o'ch map.




Bydd gwaelod eich map yn dangos y raddfa rydych chi arni nawr. Wrth i chi zwmio allan, bydd y raddfa’n newid.


# Tremio neu 'Panio'

Mae ‘tremio’ (panio) yn cyfeirio at y weithred o symud delwedd o gwmpas er mwyn ei gweld o safbwyntiau gwahanol.


I banio o gwmpas eich map, chwith-gliciwch ar y map, a chan gadw’ch bys ar y botwm chwith, llusgwch eich llygoden i fyny, i lawr, i’r chwith neu i’r dde.

Er enghraifft: edrychwch ar Ddelwedd A isod, ac yna edrychwch ar Ddelwedd B.

**Delwedd A.**



**Delwedd B.**




Chwilio...
Gweld Opsiynau
+
−
Mae'r cae sydd wedi'i ddewis bellach wedi cael ei 'dremio' i ochr dde'r ddelwedd.
Allwedd
Parsel actif
Ffiniau parseli eraill
Canopi coed
500 m
1000 ft
E: 250523 - N: 366746
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2025. Arolwg Ordnans AC0000849488. © Bluesky International Limited 2021 a thu hwnt. Caniateir defnyddio'r data hwn yn unol â'r telerau ac amodau. Roedd yr wybodaeth a ddangosir ar y map yn berthnasol ar 09/12/2025.

# Dewis Haenau

Pan fyddwch chi'n agor eich map, yr haen a welwch gyntaf yw haen y Llun o'r Awyr.

Mae'r map yn gallu dangos haenau gwahanol o'ch daliad. Mae haen yn golygu hynny'n union: haenau o wybodaeth wahanol, un ar ben y llall, y cyfan ar ben y ddelwedd sylfaen. Bydd diffodd haenau gwahanol, a throi rhai eraill ymlaen, yn creu effeithiau gwahanol.




# Graddfa Arddangos Haenau


Dim ond ar neu islaw lefel graddfa y bydd modd gweld rhai haenau.

- 1 Llun o'r Awyr - pob graddfa
- 2 Haen y Map - pob graddfa
- 3 Labeli caeau - 50m neu'n nes
- 4 Nodweddion Parhaol - 500m neu'n nes

Pob haen arall - 1000m neu'n nes.


# Haen Llun o’r awyr

Pan fydd y blwch 'Gweld Opsiynau' wedi chwyddo, gallwch glicio i weld haen y llun o'r awyr. Wrth edrych ar y map, bydd yr haen hon 'ymlaen' yn awtomatig.




# Haen Map

Os ydych chi’n troi’r ‘Haen Map’ ‘Ymlaen’, bydd y system yn tynnu’r haen lluniau o’r awyr. Os yw’r haen hon yn cael ei diffodd, bydd y system yn ail-gyflwyno’r haen lluniau o’r awyr yn awtomatig.




Os ydych chi'n dewis 'Ymlaen', bydd y map yn edrych fel hyn.

Os ydych chi'n chwyddo i mewn ar y map, bydd yr Haen Map yn edrych fel hyn. Er mwyn gweld y map bydd angen i chi chwyddo allan.




# Haen Nodweddion Parhaol

Nodweddion parhaol yw ardaloedd o fewn parsel tir sydd ddim yn newid bob blwyddyn fel arfer. Mae nodweddion parhaol yn cael eu mapio o fewn parsel tir trwy ddefnyddio Ffurflen Cynnal Caeau.




# Haen Labeli Caeau

Bydd yr haen hon yn dangos Cyfeirnod Dalen y Cae a Rhif y Cae.




# Haen Cynefin

Bydd yr haen hon yn caniatáu ichi weld y cynefinoedd sydd ar eich parseli.




# Haen Canopi Coed

Bydd y haen hon yn caniatáu i chi weld canopi'r coed sydd ar eich pecynnau.




# Haen Gwrthodwyd Sgrinio AEA

Bydd yr haen hon yn caniatáu i chi weld Gwrthodwyd Sgrinio AEA ar y map




# Haen Opsiynau Rheoli Glastir

Bydd y haen hon yn caniatáu i chi weld y pacedi a oedd o dan opsiynau rheoli Glastir yn flaenorol ar y map.




# Haen Safleoedd Dynodedig

Bydd yr haen hon yn caniatáu i chi weld Safleoedd Dynodedig ar y map.




# Haen Amgylchedd Hanesyddol

Bydd yr haen hon yn caniatáu i chi weld Amgylchedd Hanesyddol ar y map.




# Haen Llethr 12 gradd neu fwy

Bydd yr haen hon yn caniatáu i chi weld Llethr 12 gradd neu fwy ar y map.




# Haen Hawliau Tramwy Cyhoeddus

Bydd yr haen hon yn caniatáu i chi weld Hawliau Tramwy Cyhoeddus ar y map.




# Haen Mynediad Agored

Bydd yr haen hon yn caniatáu i chi weld Mynediad Agored ar y map.




# Haen Coetir Hynafol

Bydd yr haen hon yn caniatáu i chi weld Coetir Hynafol ar y map.




# Haen Mawnogydd

Bydd yr haen hon yn caniatáu i chi weld Mawnogydd ar y map.




# Haen Perygl Llifogydd

Bydd yr haen hon yn caniatáu i chi weld Perygl Llifogydd ar y map




# Haen AGA Brain Coesgoch

Bydd yr haen hon yn caniatáu i chi weld AGA Brain Coesgoch ar y map.




# Haen Safleoedd sy'n Dibynnu ar Ddŵr

Bydd yr haen hon yn caniatáu i chi weld Safleoedd sy'n Dibynnu ar Ddŵr ar y map.



# Haen Rhydyddion Bridio

Bydd y haen hon yn caniatáu i chi weld y pacedi gyda mannau Rhydyddion Bridio ar y map.



## Manylebau Technegol

Er mwyn manteisio’n llawn ar y cyfleuster Map Rhyngweithiol, dylech chi ddefnyddio cyfrifiadur neu liniadur gydag un o’r porwyr rhyngrwyd canlynol:

- Microsoft Edge
- Google Chrome
- Mozilla Firefox

Mae’r rhan fwyaf o ffonau clyfar a dyfeisiau llechen sydd â systemau gweithredu Android neu Mac IOS yn gweithio hefyd.

Bydd angen y fersiwn ddiweddaraf o Adobe Reader arnoch hefyd er mwyn argraffu neu gadw copi o unrhyw fap PDF sy’n cael ei greu.

Mae dolen i’r fersiwn ddiweddaraf o Adobe Reader ar gael yn https://www.llyw.cymru/mewngofnodi-ar-taliadau-gwledig-cymru-rpw-ar-lein

## Atodiad A

### Ymwadiad Hawliau Tramwy Cyhoeddus

Mae'r set ddata Hawliau Tramwy Cyhoeddus (PRoW) yn darparu trosolwg unedig o lwybrau troed, llwybrau ceffylau, cilffyrdd cyfyngedig, a chilffyrdd ledled Cymru. Mae'n tynnu ar ddata gan 24 o Awdurdodau Lleol a Pharciau Cenedlaethol, a gasglwyd rhwng Hydref 2024 a Hydref 2025. Sylwch fod y set ddata hon yn cynrychioli ciplun mewn amser; disgwylir diweddariadau rheolaidd yn 2026 fel cam nesaf y prosiect Map Digidol PRoW. Ei bwrpas yw cynnig cyfeiriad cyffredinol ar gyfer hawliau tramwy cyhoeddus. Mae'r set ddata hon yn brawf o gysyniad sy'n esblygu. Yn bwysig, nid yw'r set ddata hon yn fap diffiniol ac ni ddylid dibynnu arni at ddibenion cyfreithiol. Mae pob Awdurdod Lleol a Pharc Cenedlaethol yn rheoli eu setiau data PRoW eu hunain, sydd wedyn yn cael eu crynhoi ar MapDataCymru. Am wybodaeth gyfreithiol bendant, rhaid i ddefnyddwyr ymgynghori â'r cofnodion swyddogol a gedwir gan yr awdurdod perthnasol.

### Ymwadiad - Set ddata Ddigidol Hawliau Tramwy Cyhoeddus i Gymru

Mae'r data Hawliau Tramwy Cyhoeddus a ddarperir yma yn cael ei gasglu o gopïau gwaith, sylwadau digidol, a dehongliadau o Fapiau a Datganiadau Diffiniol a ddarparwyd gan sawl Awdurdod Lleol (ALlau) a Pharciau Cenedlaethol (PCau) ledled Cymru ac fe'i bwriedir at ddibenion cyfeirio cyffredinol yn unig.

Mae'r data yn cyflwyno trosolwg unedig o lwybrau troed, llwybrau ceffylau, cilffyrdd cyfyngedig, cilffyrdd sy'n agored i'r holl draffig, a llwybrau eraill sy'n defnyddio sgema symlach. Fel prawf cysyniad sy'n esblygu yn ei ail iteriad, gellir diweddaru'r set ddata wrth i fanylion neu gywiriadau newydd godi. Nid yw'n fap diffiniol.

Mae'r set ddata unedig hon ar DataMapWales (DMW) yn cynnwys data a gasglwyd o ffynonellau swyddogol rhwng Hydref 2024 a Hydref 2025, gan ffurfio casgliad sy'n cynnwys gwerth amrywiol. Sylwch nad yw'r haen hon ar DMW yn cael ei chynnal ar hyn o bryd; bydd camau'r prosiect yn y dyfodol yn mynd i'r afael â'r mater hwn.

Noder y cyfyngiadau canlynol:

- **Statws Cyfreithiol**: Nid yw'r data digidol yn gofnod cyfreithiol terfynol o hawliau tramwy cyhoeddus. Y cofnod cyfreithiol swyddogol yw'r Map a’r Datganiad Diffiniol papur a ddelir gan yr awdurdod lleol perthnasol. Ar gyfer unrhyw ymholiadau cyfreithiol, anghydfodau, neu gadarnhad o statws ac aliniad llwybr, rhaid i chi ymgynghori â'r Map Diffiniol yn uniongyrchol gyda'r ALl neu PC priodol.

- **Ffynonellau Data**: Mae'r set ddata unedig a gyflwynir ar DMW yn dod o 24 ALl a PCau, pob un yn cynnal ei gofnodion a'u safonau eu hunain. Gall amrywiadau mewn casglu, cynnal a chadw ac amlder diweddaru data arwain at anghysondebau rhwng sefydliadau.

- **Cywirdeb a Diweddariadau**: Er bod pob ymdrech wedi'i wneud i sicrhau cywirdeb y data, gall fod yn destun sicrwydd ansawdd parhaus, diweddariadau cyfnodol, a mân wallau. Efallai na fydd newidiadau i'r rhwydwaith yn cael eu hadlewyrchu ar unwaith yn y set ddata.

- **Categorïau Hawl Dramwy Gyhoeddus**: Mae'r set ddata yn cwmpasu categorïau Hawl Dramwy Gyhoeddus nad ydynt yn graidd, nad ydynt ar hyn o bryd yn gynhwysfawr. Bydd ystyried sut i fynd i'r afael â'r categorïau hyn nad ydynt yn PRoW yn cael ei gynnal yng nghamau dilynol y prosiect.

- **Cywirdeb Data**: Mae cywirdeb y data Hawl Dramwy Gyhoeddus yn amrywio yn dibynnu ar y ffynhonnell a'r maint. Dylai defnyddwyr fod yn ymwybodol y gall gwallau mapio, hepgoriadau neu anghysondebau fodoli, ac ni ddylid dibynnu ar y data ar gyfer llywio manwl, dibenion cyfreithiol, neu ffiniau eiddo. Gwiriwch wybodaeth bwysig gyda'r ALl neu'r PC perthnasol bob amser. Ar hyn o bryd, lle mae gorgyffwrdd yn bodoli rhwng ALlau a Pcau, mae'r ddwy set ddata yn cael eu harddangos o fewn yr haen unedig hon. Bydd y mater hwn yn cael ei drafod yng nghamau dilynol y prosiect.

- **Cyfyngiadau Data**: Efallai na fydd y set ddata hon yn cynnwys pob hawl tramwy cyhoeddus, llwybrau caniataol, gorchmynion cyfreithiol arfaethedig, neu lwybrau heb statws wedi'i gofnodi. Gall rhai priodoleddau neu godau llwybr fod yn anghyflawn neu ar goll. Nid yw'r data yn addas i'w ddefnyddio fel canllaw diffiniol i fynediad, statws cyfreithiol, neu ffiniau eiddo.

- **Maint a Chywirdeb**: Gall cywirdeb data amrywio yn dibynnu ar y maint. Gall gweld maint mwy gyflwyno gwallau o gywirdeb ffug. Ar DMW mae chwyddo wedi'i gyfyngu gan na ellir gwarantu cywirdeb islaw maint llai na 1:10,000.

- **Cwmpas a chynnwys**: Gall y set ddata eithrio mathau penodol o lwybrau, megis llwybrau caniataol, gorchmynion cyfreithiol arfaethedig, neu lwybrau heb statws wedi'i gofnodi. Darperir data priodoleddau a chodau llwybr fel arweiniad ac efallai na fyddant yn gynhwysfawr.

- **Hawlfraint a Defnydd**: Mae'r defnyddio'r data hwn yn ddarostyngedig i delerau ac amodau a bennir gan yr ALlau a'r PCau perthnasol a, lle y bo'n berthnasol, yr Arolwg Ordnans. Darperir y data at ddefnydd anfasnachol yn unig ac ni ellir ei gopïo, ei ddosbarthu na'i is-drwyddedu i drydydd partïon. Dylid cydnabod ffynhonnell yr wybodaeth mewn cynnyrch neu gymhwysiad, gan gynnwys unrhyw ddatganiad priodoli a bennir gan y darparwr gwybodaeth.

**Cynghorir defnyddwyr i beidio â dibynnu ar y data hwn at ddibenion cyfreithiol. Am wybodaeth ddiffiniol a chyfredol, cyfeiriwch bob amser at y cofnodion swyddogol a gedwir gan yr Awdurdod Lleol neu'r Parc Cenedlaethol perthnasol.**